Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, 13 Mai, 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00 pm

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Y Cyng Ros Bellamy (cadeirydd)
Dirprwy Faer Y Cyng Charlotte Leadbeater, Y Cyng Colin Jenkins,
Y Cyng Ieuan Gwyn, Y Cyng Julia Jones, Y Cyng Dawn Wallace,
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau :Y Cyng Chris Parish, Y Cyng Hugh Towns,

Cof 37 / Mai / 09 Anfonebau i'w talu

WCVA (Gweinyddiaeth Ebrill 2009)	£ 34.79
Nicholas Bailey (trwsio drws y storfa)	£ 165.00
M. Williams (rhentu garej 2009-10)	£ 374.40
CSC (treuliau etholiad)	£ 474.24
PC World (Inc Argraffydd)	£ 39.99
Morgan & Morgan (deunydd swyddfa)	£ 29.04
Argraffwyr Lewis (Llyfryn Llwybr y Dref)	£ 568.00

Penderfynwyd y dylid talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 38 / Mai /09 Incwm a Dderbyniwyd Ebrill 2009

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (rhent)	£ 3,140.75
CSC (archebiant)	£ 15,891.34

Cof 39 / Mai / 09 Balansau'r Cyfrifon

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (31.4.09)	£ 20,589.29
LTC CYFRIF CYNILO (31.3.09)	£ 37,146.66
LTC Cyfrif Treuliau'r Maer (20.4.09)	£ 1,260.17
Mae hawliad TAW wedi'i wneud am	£ 6,326.11

Cof 40 / Mai / 09 Materion Ariannol Eraill

1. Rhagolwg Tair Blynedd ar gyfer y Gyllideb.
   Cyflwynodd y Swyddog Cyllid ragolwg 3 blynedd ar gyfer y gyllideb. Cytunodd y Cynghorwyr i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r rhagolygon.
2. Cofrestr Asedau Sefydlog Mawrth 2009.

Diolchodd y Swyddog Cyllid i'r Swyddog Technegol a'r Cyng Colin Jenkins am eu help wrth ddiweddaru'r Gofrestr o Asedau.

3. Roedd y Swyddog Cyllid wedi cwblhau'r ddogfen ategol ar gyfer y Cyflwyniad Archwilio. Gofynnodd am roi'r Archwiliad ar Agenda'r Cyngor Llawn ar Fai'r 27ain.
4. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Fatterini i wneud ymholiadau ynglŷn â medal i'w chyflwyno i Gymar Cyn Meiri wedi iddynt orffen blwyddyn yn y swydd.
5. Gofynnodd y Maer am ganiatâd i gynnal derbyniad i Swyddogion Clwb Rygbi Llandeilo er mwyn cydnabod eu llwyddiant eithriadol yn ystod y tymor sydd wedi dod i ben, i'w gynnal yn y Siambr ddydd Iau, Mai'r 21ain am 8pm. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid clustnodi swm o hyd at £100 ar gyfer y derbyniad. Eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 41 / Mai / 09 Gohebiaeth Parthed Cyllid

1. Llythyr oddi wrth Mrs Kindred mewn perthynas â Gŵyl y Synhwyrau. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater y byddai'r Cyngor eto yn noddi'r Ŵyl trwy roi £ 1,000 i'r Siambr Fasnach. Roedd pawb o blaid. Y Clerc i ysgrifennu at y Siambr Fasnach yn gofyn a fyddai'n bosib i aelod o'r Cyngor gael ei wahodd yn aelod o'r pwyllgor trefnu. Bydd y Cyngor hefyd yn gofyn am osod logo'r Cyngor ar yr holl ddeunyddiau hysbysebu ac y byddai achlysur i gynnau'r goleuadau Nadolig, a drefnir gan y Cyngor Tref yn cael ei hyrwyddo yn eu llyfryn.
   Rhoddir ystyriaeth i noddir digwyddiad yn flynyddol.

2. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

i) Clwb Tennis Llandeilo. £200 Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. (S137)
ii) CRhA Ysgol Gymraeg Teilo Sant. £200. Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas, eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn (S145)
iii) Henoed Llandeilo a'r Cylch. £300. Cynigiwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater, eiliwyd gan y Cyng Julia Jones. (S137)
iv) Clwb Rygbi Ieuenctid Llandeilo. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn am gyfriflen banc fel sydd fel arfer yn ofynnol cyn y gellir cadarnhau rhoi rhodd. Caiff ei ystyried wedi derbyn y gyfriflen.
   Roedd pawb o blaid.

Cof 42 / Mai / 09 Agweddau Ariannol Adroddiad y Swyddog Technegol.

a) Agorwyd y dyfynbrisiau mewn perthynas â chlirio'r rhandir yn y cyfarfod :-

Hugh Gwynne, torri 15 o goed a gwaredu sbwriel ac isdyfiant	£700
Hugh Gwynne, torri 15 o goed	£ 580
Gwasanaethau Coed Llambed, torri 15 o goed, ond heb waredu'r pren	£ 600

Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas y dylid derbyn dyfynbris Mr Gwynne am £700 oherwydd ei bod yn cynnwys gwaredu'r sbwriel a'r isdyfiant. Roedd pawb o blaid.

b) Agorwyd y dyfynbrisiau mewn perthynas â gosod gwres yn nhoiledau Neuadd y Sir yn y cyfarfod :-

Westward Heating - £ 829

Terry Davies Heating and Plumbing	£ 970
Hurley Building Services	£ 1,780

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas y dylid derbyn dyfynbris Westward Heating. Roedd pawb o blaid.

c) Agorwyd dyfynbrisiau i osod larymau tân a goleuadau brys yn Neuadd y Sir yn y cyfarfod :-

	Larymau tân	Goleuadau Brys
C.B.Sams	£ 3,445.00	£ 1,436.00
F.A.S.	£ 3,490.00	£ 1,490.00
Dyfed Alarms	£ 3,476.00	£ 1,631.00

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas y dylid cynnig y ddau gytundeb i C.B.Sams. Roedd pawb o blaid.

Cytunwyd y byddai is-grŵp y Cyngor ar gyfer Neuadd y Sir sef y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Colin Jenkins a'r Swyddog Technegol yn cwrdd â Mr Ken Murphy o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed mewn perthynas â threfniadau ariannol y cytundebau hyn.

Cof 43/ Mai / 09 Nid oedd rhagor o eitemau o fusnes a oedd ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05pm